Reviewed 29/03/13

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynllun Gweithredu Cynefin: Trefol / Tir Llwyd / Adeiladau/ Gerddi

---

## Cyflwyniad

### Sgôp

Mae'r cynllun gweithredu cynefinoedd dosbarthedig yma yn cynnwys:

- Adeiladau a Strwythurau Artiffisial eraill
- Gerddi, ardaloedd cymunedol & mynwentydd
- Ymylon ffyrdd, coridorau trafnidiaeth a choed stryd
- Cynefinoedd mosäig agored ar dir a ddatblygwyd eisoes

Trafodir rheolaeth rhywogaethau goresgynnol estron gan Gynllun Gweithredu Rheolaeth Rhywogaethau Goresgynnol Estron arall. Caiff gwrychoedd (a gysylltir yn aml â choridorau trafnidiaeth) eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Tir Fferm.

### Gweledigaeth

I gynnal a gwella gwerth a photensial bywyd gwyllt ardaloedd trefol, gerddi ac amgylcheddau artiffisial arall nad ydynt yn amaethyddol yn Sir Benfro.

### Disgrifiad o Gynefinoedd

Yn adnodd bioamrywiaeth a anwybyddir yn aml, mae'r cynefinoedd yma yn medru bod yn bwysig i fywyd gwyllt yn ogystal ag i drigolion lleol, gan gynnig cyfleodd i bobl ymgysylltu â bioamrywiaeth leol a gan ddarparu llu o wasanaethau ecosystem mewn amgylcheddau anthropogenig.

Mae gerddi a'r rhwydwaith o wrychoedd a waliau cerrig sy'n eu ffinio yn aml yn creu clytwaith o hafanu diogel i fywyd gwyllt. Maent yn cynnig lloches i blanhigion blodeuol, mwsogl, ffyngau a chennau ac yn cynnig ffynhonnell fwyd, dŵr a chysgod i nifer o anifeiliaid, o adar gardd cyffredin i amffibiaid, gweision y neidr a mursennod, a gysylltir yn aml â phyllau mewn gerddi.

Mae bron pob poblogaeth o ystlumod yn y Sir yn defnyddio adeiladau ar ryw bwynt yn ystod y flwyddyn. Mae'r dylluan wen fel arfer yn defnyddio tai allan. Mae hen welydd carreg, yn enwedig rhai a godwyd yn defnyddio carreg galch a mortar, yn aml yn cynnal fflora amrywiol (rhedyn fel arfer).

Mae mynwentydd yn aml yn cynnig tir glas heb ei ddatblygu neu wedi ei ddatblygu'n rhannol mewn ardaloedd trefol. Maent yn gynyddol bwysig fel cynefin i fywyd gwyllt, o ganlyniad i brinder ac amrediad rhai o'r rhywogaethau (yn cynnwys glaswelltiroedd, mwsogl, cen, rhedyn, ffwng, blodau gwyllt, pryfed, ymlusgiaid, adar a mamaliaid) sydd ynddynt.

Mae tir sydd eisoes wedi ei ddatblygu yn cael ei wladychu'n naturiol gan rywogaethau manteisgar sy'n methu cystadlu mewn cynefinoedd mwy sefydledig. Mae'r safleoedd yma yn cynnig troedle pwysig i rywogaethau byrhoedlog, gan gynnwys sawl rhywogaeth o wenyn, gwenyn meirch, chwilod a phryfed anghyffredin sy'n cael eu denu at nifer y blodau a hadau a gynhyrchir gan rywogaethau planhigion 'chwyn' uchel.

Mae ymylon ffyrdd yn nodweddion hirfain a gysylltir yn aml gyda llethr-gwrychoedd (a drafodir mewn cynllun gweithredu arall). Fodd bynnag mae glaswelltiroedd ac ymylon ffyrdd sydd wedi eu datblygu yn aml yn medru cynnal fflora amrywiol os ydynt yn cael eu rheoli'n sympathetig.

Fel grŵp, mae'r cynefinoedd yn y cynllun hwn yn cynnig adnodd sy'n gyfoeth o fioamrywiaeth, ac mae ganddynt y potensial i ddarparu coridorau bywyd gwyllt pwysig, sy'n sicrhau mudoledd cynefinoedd dros ardal eang, a hefyd yn cysylltu cynefinoedd darniog a rhywogaethau a allent fod yn ynysig.

# Bygythiadau

Mae bygythiadau i'r cynefinoedd yma yn tarddu o arnewid a datblygu adeiladau allan, datblygu safleoedd tir llwyd a'r potensial o raglenni rheolaeth anaddas ac anoddefgar mewn safleoedd cyhoeddus, gerddi ac ymylon ffyrdd. Mae nifer o safleoedd yn cael eu hesgeuluso o ganlyniad i ddiffyg cydnabyddiaeth o'u pwysigrwydd i fioamrywiaeth. Mae cystadleuaeth gan rywogaethau estron (megis Clymog Japan, neu ysglyfaethwyr dof megis cathod) neu ddylanwadau anthropogenig arall (megis lladrata, fandaliaeth, llygredd hamdden amhriodol) hefyd yn achosi niwed i'r cynefinoedd hyn.

# Cynlluniau a Pholisïau Perthnasol

Rhai o'r cynlluniau / polisïau eraill sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar reolaeth y cynefinoedd yma yn Sir Benfro yw:

- Strategaeth corfforaethol rheoli coed Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Cynllun Datblygu CSP a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol. Ar gael o: http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1626,109&parent_directory_id=646&id=11211

- Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol cysylltiedig. Ar gael o: http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=96
- Nodyn Cyngor Technegol Cynllunio Llywodraeth Cymru (TAN5). Ar gael o: http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/?lang=en
- Cynllun Gweithredu Partneriaeth Bioamrywiaeth Rhywogaethau Goresgynnol Sir Benfro (yn cael ei ddatblygu).
- Cynllun Gweithredu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cynefin Tir Fferm Sir Benfro ar gael o: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376

# Rhywogaethau a gysylltir â'r Cynefinoedd yma

| **Rhywogaethau Blaenoriaeth a Gysylltir â'r Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Dosbarthedig** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Enw'r Rhywogaeth | Enw Cyffredin | DU Bap Spp | Rhestr S42 Cymraeg Spp | Bwysig yn lleol Spp |
| **Mamaliaid** | | | | |
| *Erinaceus europaeus* | Draenog Gorllewin Ewrop | ✓ | ✓ | |
| *Pipistrellus pipistrellus* | Yr Ystlum Lleiaf | | ✓ | |
| *Pipistrellus pygmaeus* | Corystlum Soprano | ✓ | ✓ | |
| *Plecotus auritus* | Ystlum Hirglust | ✓ | ✓ | |
| **Adar** | | | | |
| *Carduelis cannabina subsp. Autochthona / cannabina* | Llinos | ✓ | ✓ | |
| *Falco Peregrinus* | Hebog Tramor | | | ✓ |
| *Falco tinnunculus* | Cudyll Coch | | ✓ | |
| *Larus argentatus subsp. argenteus* | Gwylan y Gweunydd | ✓ | ✓ | |
| *Muscicapa striata* | Gwybedog Mannog | ✓ | ✓ | |
| *Passer domesticus* | Aderyn y To | ✓ | | |
| *Picus viridus* | Cnocell Werdd | | | ✓ |
| *Prunella modularis subsp. occidentalis* | Llwyd y Gwrych | ✓ | ✓ | |
| *Pyrrhula pyrrhula subs. pileata* | Coch y Berllan | ✓ | ✓ | |
| *Sturnus vulgaris subsp. Vulgaris* | Drudwen | ✓ | ✓ | |
| *Turdus philomelos subs. clarkei* | Bronfraith y grug | ✓ | ✓ | |
| *Tyto alba* | Tylluan Wen | | | ✓ |
| *Vanellus vanellus* | Cornicyll | ✓ | ✓ | |
| **Ymlusgiaid / Amffibiaid** | | | | |
| *Anguis fragilis* | Neidr ddefaid | ✓ | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Bufo bufo* | Llyfant | ✓ | ✓ | |
| *Natrix natrix* | Neidr y Gwair | ✓ | ✓ | |
| *Vipera berus* | Gwiber | ✓ | ✓ | |
| *Zootoca vivipara* | Madfall | ✓ | ✓ | |
| **Pryfed** | | | | |
| *Erynnis tages* | Gwibiwr Llwyd | ✓ | ✓ | |
| *Plebejus argus* | Glesyn Serennog | ✓ | ✓ | |
| *Pyrgus malvae* | Y Gwibiwr Brith | ✓ | ✓ | |
| **Planhigion Fasgwlaidd** | | | | |
| *Melittis melissophyllum* | Gwenynog Wengoch | ✓ | ✓ | |
| *Polypodium australe 'cambrican'* | Llawredynen | | | ✓ |
| **Planhigion Isel** | | | | |
| *Clavaria zollingeri* | Cwrel Fioled | | ✓ | |
| *Hygrocybe calyptriformis* | Cap Cwyr Pinc | | | ✓ |
| *Hygrocybe spadicea* | Cap Cwyr Datys | ✓ | ✓ | |
| *Microglossum olivaceum* | Tafod Daear Melynwyrdd | ✓ | ✓ | |

# Nod y Cynllun

**NB.** I nifer o’r cynefinoedd yma, nid yw maint, na chyflwr y cynefin yn hysbys. Mae’r ardal o safleoedd tir llwyd a nifer yr adeiladau artiffisial yn amrywio yn ôl datblygiad. Nid yw gerddi preifat ar gael i’w tirfesur ac mae diffyg adnoddau yn golygu nad yw’n bosib mesur y rhwydwaith ymylon ffyrdd yn drylwyr. O ganlyniad, nid oes modd gosod targedau niferoedd ystyrlon i gynnal, gwella ac ehangu ardaloedd o gynefinoedd neu boblogaeth rhywogaethau. Mae casgliad o nodau cyffredinol wedi eu gosod isod felly. Maent yn gymharol amhenodol; i gynnal lefel lles bioamrywiaeth yn gyffredinol yn yr ardaloedd o gynefinoedd yma yn y Sir.

| Rhif | Nod | Erbyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| BFU 1 | Cynnal lles bioamrywiaeth presennol ac ymwneud y cyhoedd gyda’r cynefinoedd a gynhwysir yn y cynllun yma. | Mawrth 2018 | |
| BFU 2 | Chwilio am gyfleoedd i ehangu amrywiaeth cilfachau sydd ar gael yn y cynefinoedd a gynhwysir yn y cynllun yma. | Mawrth 2018 | |
| BFU 3 | Cynnal/ehangu amrediad a phoblogaeth rhywogaethau allweddol a gysylltir gyda’r cynefinoedd yma gan gymryd blaenoriaethau'r DU a Chymru i ystyriaeth. | Mawrth 2018 | Noder: Mae Ystlumod, Adar Tir Fferm, Ymlusgiaid, Amffibiaid a Ffwng Glaswelltiroedd yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu rhywogaethau dosbarthedig arall. Mae’r rhan fwy o rywogaethau a gysylltir gyda’r cynefinoedd yma yn cael eu cysylltu gyda chynefinoedd eraill megis tir amaethyddol neu lethrau arfordirol. Nid yw’n bosib dadelfennu’r data ar gyfer y rhywogaethau yma i roi darlun clir o statws neu batrymau mewn perthynas â chynefinoedd yn y cynllun hwn. |

# Gweithred

| Cod | Gweithred | Adrodd erbyn | Arwain | Cynnydd / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| BFU1.01 | Rhoi ystyriaeth i'r cynefinoedd yma mewn prosesau cynllunio. CSP a APCAP i ystyried gwerth bioamrywiaeth y cynefinoedd yma wrth roi caniatâd i ddatblygiadau. Adnabod colledion posib o ran cynefinoedd ac ystyried mesurau lliniaru i fantoli unrhyw golledion o'r fath. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | CSP / APCAP | |
| BFU1.02 | Cynnal adolygiad o'r rhwydwaith gwarchodfeydd natur ymylon ffyrdd yn y Sir i sicrhau bod rhaglenni rheolaeth yn cynnal gwerth bioamrywiaeth y cynefinoedd hyn. | Tachwedd 2013 | CSP | |
| BFU1.03 | Codi ymwybyddiaeth o werth bioamrywiaeth y cynefinoedd hyn drwy gynnal digwyddiadau gyda'r gymuned megis y cynllun 'Wildlife on your Patch' | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | PBP | |
| BFU1.04 | Gweithredu holiadur perchnogion tai ynglŷn â gerddi i sefydlu data gwaelodlin o fedrusrwydd bioamrywiaeth y cynefinoedd yma. | Medi 2013 | YNDGC | |
| BFU1.05 | Cynnal strategaeth gorfforaethol rheolaeth coed gyda'r bwriad o gynnal lles bioamrywiaeth yn hafal â diogelwch y cyhoedd a harddwch. | Mehefin 2013 | CSP | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| BFU1.06 | Monitro mynwentydd CSP am ffwng cap cwyr a rhywogaethau arall a gynhwysir yn y cynllun yma. Darparu cyngor i reolwyr safleoedd ar reolaeth i sicrhau gwerth bioamrywiaeth. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | CSP | |
| BFU1.07 | Creu cynlluniau rheolaeth ar gyfer ardaloedd cymunedol i gynnal ac ehangu gwerth bioamrywiaeth yn y cynefinoedd. Anelu i gynhyrchu 3 bob blwyddyn. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | CSP | |
| BFU1.08 | Cynyddu ymwybyddiaeth o ac ymwneud pobl â bioamrywiaeth cynefinoedd sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun yma drwy hyrwyddo mentrau cenedlaethol megis Arolwg Adar Gardd yr RSPB, yn lleol. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill. | PBP | |
| BFU1.09 | Annog a chefnogi ysgolion i ddatblygu a defnyddio ardaloedd bywyd gwyllt ar eu tir fel rhan o weithgareddau dysgu. Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o fioamrywiaeth ymysg staff a disgyblion mewn ysgolion lleol drwy gynnal ymweliadau dosbarth â safleoedd bywyd gwyllt a chyngor i ysgolion ar arddio bywyd gwyllt ar dir yr ysgol. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | Canolfan Darwin; YNDGC; CSP Scolton | |
| BFU1.10 | Hyrwyddo mentrau lleol i wneud gerddi yn fwy caredig i fywyd gwyllt ac yn fwy cynaliadwy drwy weithio gyda chanolfannau garddio lleol a chlybiau garddio i hyrwyddo garddio sy'n gyfeillgar i natur. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | PBP | |
| BFU2.01 | Cynnal adolygiad o'r rhwydwaith gwarchodfeydd | Tachwedd | PBP | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | natur ymylon ffyrdd yn y Sir i adnabod ardaloedd addas lle y gallai rheolaeth gadarnhaol wella gwerth bioamrywiaeth. | 2013 | | |
| BFU2.02 | Cynyddu nifer ac amrywiaeth cilfachau sydd ar gael yn y cynefinoedd yma drwy ddarparu blychau ystlumod, adar a/neu bathewod mewn ardaloedd cymunedol fel rhan o'r cynllun Gwell Coed Cymru. Targed o 400 o flychau erbyn 2016. | Ebrill 2016 | CSP | |
| BFU2.03 | Darparu gwybodaeth fel sy'n briodol i ganiatáu grwpiau cymunedol i wella bioamrywiaeth ac i gael mynediad at ardaloedd bywyd gwyllt cymunedol. Cynorthwyo i ddod o hyd ac i wneud cais am arian i brosiectau bioamrywiaeth. Chwilio yn bellach am gytundebau rheolaeth a mynediad i annog gwell mynediad i gymunedau i ardaloedd agored. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ionawr | CSP | |
| BFU3.01 | Rhwystro tresmasu prysgoed ar ardaloedd agored yn Westfield Pill NNR i gynnal ac ehangu'r boblogaeth Gwenynog Gwengoch a darparu cyfleoedd addas i rywogaethau eraill a enwir yn y cynllun hwn. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | YNDGC | |
| BFU3.02 | Chwilio i gynnal ac ehangu'r boblogaeth o Wenynogion mewn ardaloedd ymyl ffordd penodol yn y Sir drwy sicrhau bod rhaglenni rheolaeth pwrpasol yn eu lle. | Parhaus. Adrodd yn flynyddol ym mis Hydref. | CSP | |
| BFU3.03 | Cynnal / ehangu'r poblogaethau o ffwng cap cwyr yn | Parhaus. | Rhwydwaith | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | y Sir drwy ddarparu cyngor i reolwyr mynwentydd/ gerddi ar reolaeth y rhywogaethau yma. | Adrodd yn flynyddol ym mis Ebrill | Cofnodi Ffwngi Sir Benfro | |